**Jane Hutt AC**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JH-/05257/19

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad Aberconwy
Cadeirydd - Pwyllgor deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

4 Mehefin 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 30 Ebrill, at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â'r Pwyllgor Deisebau - P- 05-882 Trawsnewid yr ymateb i bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig - galw am weithredu. Mae hyn wedi cael ei drosglwyddo i mi, gan fod cam-drin domestig yn rhan o fy mhortffolio. Rwyf wedi amlinellu fy marn isod er mwyn helpu i ystyried y ddeiseb hon yn ffurfiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fynd i'r afael â phob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn cefnogi pob un sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae gan bob un ohonom yr hawl i fyw bywyd heb drais o unrhyw fath, ac ni ddylai ein hoedran na'n sefyllfa gael effaith ar yr hawl hon. Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cydnabod y gall dioddefwyr ddod o bob rhan o gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl o bob ethnigrwydd, crefydd a chred, a phobl anabl. Mae'r gwaith i weithredu'r Ddeddf yn cynnwys profiad pob grŵp.

Mae gan Gymru draddodiad hir o weithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan, o gyflwyno'r Strategaeth gyntaf ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn 2003, i sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn cyntaf y byd yn 2008. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau niferus ac amrywiol gan bobl hŷn i greu cymunedau cefnogol sy'n ffynnu. Buom yn gweithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i ddatblygu *"Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru,"* a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mae hyn yn rhoi cyngor ymarferol i staff a rheolwyr ar gydnabod a deall ym mha gyd-destun y mae cam-drin

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

pobl hŷn yn digwydd. Mae'r canllawiau hefyd yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rai o'r materion a'r risgiau penodol sy'n wynebu pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig.

Mae gweithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn ystyried anghenion grwpiau amrywiol. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno proses “Gofyn a Gweithredu” sy'n ceisio gwella sgiliau gweithwyr allweddol y gwasanaethau cyhoeddus i gynnal ymchwiliad wedi'i dargedu er mwyn nodi achosion o gam-drin. Drwy wneud hynny, ein nod yw creu nifer o ffyrdd newydd y gall y rhai sydd wedi cael eu cam-drin ddatgelu eu profiad a chael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae profiad pobl hŷn a phobl anabl wedi cael ei ystyried drwy ein gwaith cyfathrebu aml-gyfrwng cenedlaethol; yn enwedig drwy ein hymgyrch bresennol sy'n canolbwyntio ar Reoli a Grwpiau Amrywiol. Datblygwyd yr ymgyrch hon gan ddefnyddio barn rhanddeiliaid a goroeswyr, ac mae'n adlewyrchu nifer o'r pwyntiau a godwyd drwy'r ddeiseb hon.

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau goroeswyr yn llywio ac yn pennu'r gwaith a wnawn, rydym yn treialu prosiect i gynyddu ein dealltwriaeth o'r ffordd orau o alluogi grwpiau amrywiol o oroeswyr i gymryd rhan mewn fframwaith ymgysylltu cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn ceisio ymgysylltu â'r goroeswyr hynny nad ydym wedi gallu eu cyrraedd drwy weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghoriadau blaenorol, gan gynnwys pobl hŷn. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a goroeswyr, gan gynnwys grwpiau o bobl hŷn, er mwyn sicrhau y gall eu lleisiau a'u profiadau lywio canfyddiadau ac argymhellion y gwaith hwn.

Mae ein canllawiau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn hyrwyddo gwaith comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol er mwyn atal VAWDASV, a diogelu a chefnogi pob un sydd wedi dioddef VAWDASV ledled Cymru. Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau bod gwasanaeth cyhoeddus ac arbenigol cadarn ar gael sy'n barod i helpu, ble bynnag y mae dioddefwr yn byw, beth bynnag fo'i oedran neu ei amgylchiadau.

Ym mis Rhagfyr 2018, lansiwyd ein safonau gwasanaeth i gyflawnwyr trais sy'n cydnabod, o ystyried cymhlethdod VAWDASV, ei bod yn debygol y bydd angen cyfres o wasanaethau mae'n siŵr i fynd i'r afael â risgiau ac anghenion cyflawnwyr VAWDASV yng Nghymru, gydag argymhelliad y dylai comisiynwyr a gwasanaethau fod yn ymwybodol na fydd unrhyw raglen unigol yn addas ar gyfer pob cyflawnydd VAWDASV.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Strategaeth newydd ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, sydd wrth wraidd yr egwyddor o gyd-gynhyrchu ac sy'n gosod pobl hŷn ar y rheng flaen wrth lunio polisïau Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a grymuso ar draws ystod o feysydd polisi.

Ers mis Mehefin 2018, mae llawer o waith ymgysylltu wedi cael ei gyflawni i lywio datblygiad y Strategaeth. Mae hyn wedi cynnwys creu pum gweithgor i ganolbwyntio ar drafnidiaeth; tai; cyfranogiad, cynllunio ar gyfer y dyfodol a gwireddu hawliau i bobl hŷn. Cynhaliwyd cyfanswm o 17 cyfarfod rhanddeiliaid a chymerodd pobl hŷn ran ym mhob cyfarfod.

Ynghyd â'r gwaith o ddatblygu Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, rydym hefyd yn adolygu ein harferion presennol i ymgysylltu â phobl hŷn. Nod yr adolygiad hwn yw sicrhau bod gennym ddulliau cadarn ar waith, sy'n ein galluogi i gyrraedd ystod fwy amrywiol o bobl hŷn ac ymgysylltu â nhw.

Rydym wedi ymgynghori ar ein Fframwaith newydd 'Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol' ac rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion. Mae'r Fframwaith wrth wraidd y Model Cymdeithasol o Anabledd, ac fe'i datblygwyd drwy ymgysylltu â phobl anabl dan arweiniad y Grŵp Llywio ar gyfer Byw'n Annibynnol. Ynghyd â hyn, mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau allweddol a nodwyd gan bobl anabl eu hunain, gan gynnwys trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a mynediad i adeiladau a lleoedd.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys cyfeiriadau at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn llywio rhagor o waith ar y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu cyn cyhoeddi'r fersiynau terfynol. Byddwn hefyd yn atgyfnerthu rhai rhannau allweddol o'r cynllun gweithredu, megis datblygu camau gweithredu i gefnogi pobl anabl sy'n profi VAWDASV yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi yn ystod haf 2019.

Yn gywir,

Jane

**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip